**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r
Prif Chwip

30 Ionawr 2024

Annwyl Jane,

Cyllideb Ddrafft 2024-25 – Cais am ragor o wybodaeth

Diolch am roi tystiolaeth ar 22 Ionawr fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Yn y sesiwn, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch nifer o feysydd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:

- Manylion canlyniadau gwerthusiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r tri chynllun peilot ar gyfer **atal gordewdra yn gynnar ymysg plant a theuluoedd,** sy'n cynnwys cefnogi teuluoedd gyda sgiliau coginio yn Ynys Môn, Merthyr Tudful a Chaerdydd.

- Copi o'r adroddiad interim ar y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

- Diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda rhanddeiliaid a swyddogion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgorffori'r gwaith a wnaed gan Chwarae Teg. A allwch egluro sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ailddyrannu'r arian a ddynodwyd yn flaenorol ar gyfer Chwarae Teg a chadarnhau a yw'r arian wedi mynd i gyfeiriad sefydliadau eraill ym maes tegwch rhwng y rhywiau, ynteu a yw wedi cael ei ddychwelyd i gronfa gyllideb ganolog? Os yr ail yw hi, a allwch gadarnhau a fydd y cyllid o £366,000 a ddyrannwyd yn flaenorol i Chwarae Teg ar gael i sefydliadau eraill ym maes tegwch rhwng y rhywiau yn ystod y flwyddyn?

- Dadansoddiad o'r cyllid a roddir i gonsortiwm ffoaduriaid Cymru.

- Manylion rhaglenni Ffenics ac Adlewyrchu

Unedau data tystiolaeth:

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch chi ymroi i ddarparu i'r Pwyllgor ragor o enghreifftiau o sut mae data o'r unedau data Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant wedi cael eu defnyddio i nodi'r grwpiau a'r unigolion y mae penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru wedi effeithio arnynt fwyaf. Fe wnaethoch hefyd nodi y byddech yn fodlon dod i gyfarfod yn y dyfodol i drafod eu gwaith yn fanylach. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â'r Tîm Clercio i ddod o hyd i slot cyfleus i hyn ddigwydd.

O ystyried yr amserlenni ar gyfer adrodd ar y Gyllideb Ddrafft, byddem yn ddiolchgar o gael yr wybodaeth hon erbyn diwedd y dydd 2 Chwefror 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.